**Atodiad F – Enghraifft o lythyr yn gofyn am fathodyn yn ôl – bathodyn wedi dod i ben**

**Cyfeiriad yr Awdurdod Lleol**

**ENW a CHYFEIRIAD DEILIAD Y BATHODYN**

Ffôn:

Ffacs:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

**Annwyl ENW**

**Bathodyn Glas - RHIF CYFRESOL**

Cawsom wybod bod rhywun wedi gweld eich bathodyn anabledd â'r rhif cyfresol **(RHIF CYFRESOL)**, sydd wedi dod i ben, yn cael ei ddefnyddio ar **(AMSER, DIWRNOD A DYDDIAD)**. Daeth y bathodyn hwn i ben ar **(DYDDIAD)**, ac fe'i gwelwyd wedi'i arddangos yn y cerbyd **(GWNEUTHURIAD, MODEL A RHIF COFRESTRU)** pan oedd y cerbyd hwnnw wedi'i barcio ar ddarn o ffordd wedi'i farcio â llinellau melyn dwbl yn **(LLEOLIAD)**.

Fel deiliad y bathodyn hwn, hoffwn eich atgoffa fod rhwymedigaeth arnoch i'w ddychwelyd i'r awdurdod a'i rhoddodd ar unwaith pan ddaw i ben, yn unol â Rheoliad 9 (1) (a) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000.

Efallai mai un digwyddiad yw hwn, ond mae defnyddio bathodyn anabledd sydd wedi dod i ben yn drosedd, ac yn groes i Adran 117 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a/neu adran 21 (4BZA) o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970. Felly mae'n rhaid imi fynnu eich bod yn dychwelyd y Bathodyn Glas inni yn y cyfeiriad uchod cyn gynted ag sy'n bosibl. Bydd hyn yn ein galluogi i ddadgofrestru'r bathodyn a diweddaru ein cofnodion.

Fel y gwyddoch, o bosibl, mae camddefnydd sylweddol o'r cyfleusterau hyn, ac ni all hynny ond achosi anfantais i'r rheiny y mae arnynt angen gwirioneddol. Rydym felly yn gwerthfawrogi'n fawr eich cydweithrediad yn y mater hwn. Os oes angen cyngor neu gymorth arnoch ynghylch y ddeddfwriaeth uchod neu gynllun y Bathodyn Glas, mae croeso ichi gysylltu â mi ar y rhif ar frig y llythyr.

Yn gywir

ENW

Swyddog Ymchwilio Parcio

**YR AWDURDOD LLEOL A RODDODD Y BATHODYN**